

Cyngor Partneriaeth Cymru
12:30 – 14:30, 18 Mawrth 2019
Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion y cyfarfod

Mynychwyr

Aelodau

Julie James AC – Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Cadeirydd)
Hannah Blythyn AC – Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Cyng. Debbie Wilcox – Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd
Cyng. Andrew Morgan – Swyddog Llywyddu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyng. Huw Thomas – Arweinydd Cyngor Caerdydd
Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael – Cynrychiolydd y Comisiynwyr Heddlu a
Throseddu
Cyng. Tudor Davies – cynrychiolydd yr Awdurdodau Tân ac Achub
Cyng. Michael Cuddy – Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned
Maria Battle – Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Chynrychiolydd y Byrddau
Iechyd Lleol
Owain Wyn – cynrychiolydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Sylwedyddion

Chris Llewellyn, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Peter Davies, Cadeirydd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr, Un Llais Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd

Ysgrifenyddiaeth

Paula James a Lisa Hughes, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Cyng. Ellen ap Gwynn – Ceredigion
Cyng. Aaron Shotton – Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Rob Stewart – Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyng. Mair Stephens – Aelod Etholedig Cyngor Sir Gâr
Cyng. John W Thomas – Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
Cyng. Ieuan Williams – Aelod Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn
Adrian Crompton – Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd)

Pwyntiau Gweithredu

Pwynt Gweithredu 1: Cyfeiriodd PB at ddogfen Llywodraeth y DU ar oblygiadau ymadael heb gytundeb o ran masnach a busnes a chytunodd y bydd dolen yn cael ei hanfon at yr aelodau drwy'r ysgrifenyddiaeth [\[Dolen we\]](#).

Pwynt Gweithredu 2: Soniodd PB am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd, yn ei farn ef, yn asesiad teg a gwerthfawr o baratodau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn amlygu maint yr her a phwysigrwydd craffu, ac roedd PB yn dymuno cofnodi diolchiadau i Swyddfa Archwilio Cymru am y digwyddiadau craffu dilynol. Yr ysgrifenyddiaeth i gyfleu neges i Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwynt Gweithredu 3: Dywedodd PB heddiw (18 Mawrth) y cyhoeddwyd adroddiad ar yr effaith y bydd cynigion polisi mudo Llywodraeth y DU ar gyfer y dyfodol yn ei chael ar Gymru, a chytunodd i anfon dolen i'r adroddiad drwy'r ysgrifenyddiaeth [\[Dolen we\]](#).

Pwynt Gweithredu 4: Gofynnwyd i'r adroddiad dyddiol ar gyfer Cymru gan Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) gael ei rannu ag awdurdodau lleol. Cadarnhaodd RK na ellid rhannu'r adroddiad penodol ond y bydd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn darparu adroddiad cryno dyddiol i'r fforymau cydnerth lleol pan fydd y broses yn gwbl weithredol. Yr ysgrifenyddiaeth i hysbysu'r tîm argyfyngau sifil.

Pwynt Gweithredu 5: Dywedodd y Gweinidog y bydd y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad o drefniadau partneriaeth strategol yn cael ei ddrafftio a'i gytuno, ac y bydd yr adolygiad yn adrodd erbyn yr hydref i lywio'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yr ysgrifenyddiaeth i ymgymryd â gwaith dilynol.

Eitem 1 – croeso a chyflwyniadau

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, drwy groesawu'r aelodau a diolch iddynt oll am fynychu.
2. Esboniodd y Cadeirydd fod y Cwnsler Cyffredinol, yn anffodus, wedi'i alw i gyfarfod Brexit brys yn Llundain ac felly anfonodd ei ymddiheuriadau, ond y byddai'r eitem agenda ar Brexit yn cael ei thrafod gan Piers Bisson, Cyfarwyddwr Trefniadau Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru.
3. Disgrifiodd y Cadeirydd weddill yr agenda yn gryno, a fyddai'n cynnwys eitemau ar Argyfyngau Sifil gan Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, ac ar Ddiogelwch Cymunedol gan Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru.

Pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a diweddariadau

4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariadau ar bob un o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, fel a ganlyn:

Pwyntiau Gweithredu
<p>1. Ystyried ymgyrch bostio'r dreth gyngor i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru i anfon negeseuon at ddinasyddion am y porth Brexit ac unrhyw ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill.</p> <p>➤ Gweithredu – timau Brexit a chyfathrebu</p> <p>Gweithredwyd: roedd mwyafrif yr awdurdodau wedi cynnwys taflen Brexit mewn ymgyrchoedd postio'r dreth gyngor. Mae trafodaethau'n parhau rhwng CLILC, Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau sy'n weddill.</p>
<p>2. Brexit i fod yn eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu</p> <p>➤ Gweithredu – Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth</p> <p>Gweithredwyd: Mae Brexit yn eitem sefydlog erbyn hyn ar gyfer y ddau grŵp</p>
<p>3. Llywodraeth Cymru i barhau â gwaith dilynol ar y cyfle i gyflwyno cais Cymru i gronfa wrth gefn y DU i gefnogi rhai o'r meysydd a nodwyd. Pob aelod i rannu unrhyw wybodaeth neu newyddion â'r aelodau wrth iddynt godi.</p> <p>➤ Gweithredu – Llywodraeth Cymru a phob aelod</p> <ul style="list-style-type: none">• Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU yn gwneud cronfa ar gael mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl.• Rydym yn disgwyl na fydd llawer o gynigion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyllid hwn.• Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei ystyried, er mwyn sicrhau ein bod yn archwilio pob cyfle.• Disgwylwn dderbyn swm canlyniadol o unrhyw gyllid a ddyrennir ar gyfer cynigion yn Lloegr.
<p>4. Llywodraeth Cymru i rannu gwaith a wnaed ganddi â'r Swyddfa Gartref ar y cynllun statws preswlydd sefydlog</p> <p>➤ Gweithredu – tîm Brexit, Llywodraeth Cymru</p> <p>Gweithredwyd: Dosbarthwyd papur diweddar i aelodau ar y Cynllun Statws Preswlydd Sefydlog.</p>

Eitem 2 – Diweddariad ar Brexit

5. Rhoddodd PB grynodedb o ddigwyddiadau yn y Senedd yr wythnos flaenorol a'r cyhoeddiadau a wnaed pan gyfarfu Prif Weinidog y DU ag arweinwyr yr UE yn Strasbwrg. Roedd y cyhoeddiadau hyn yn cynnwys datganiad ar y cyd â'r UE a datganiad unochrog Llywodraeth y DU, a dilynwyd hyn gan farn a fynegwyd gan y Twrnai Cyffredinol ynghylch mater y *backstop* (y trefniadau os metha popeth arall).
6. Aeth PB ymlaen i sôn am y gyfres o bleidleisiau yn y Senedd gan gynnwys yr ail bleidlais ystyrlon ar y dydd Mawrth (a gollwyd o 149 o bleidleisiau), yn ogystal â'r Senedd yn pleidleisio yn erbyn canlyniad heb gytundeb ac o blaid ymestyn terfyn amser Erthygl 50.
7. Ymddengys bellach fod ffocws Llywodraeth y DU ar ddarbwylllo'r Blaid Ddemocrataidd Unoliaethol (DUP) ac ASau y Grŵp Ymchwil Ewropeaidd i gefnogi'r cytundeb mewn trydedd bleidlais ystyrlon.
8. Er y pleidleisiodd y Senedd yn erbyn dim cytundeb, mae pwyntiau risg yn parhau:
 - Os na chytunir ar y cytundeb mewn pleidlais ystyrlon arall yr wythnos hon, beth yn union fydd Prif Weinidog y DU yn gofyn amdano gan yr UE?
 - Sut fydd yr UE yn ymateb a beth fydd yn gofyn amdano?
 - Sut fydd y Prif Weinidog yn ymateb i unrhyw beth y mae'r UE yn gofyn amdano?
 - Beth all y Senedd ei wneud os nad yw'r Prif Weinidog yn teimlo y gallai dderbyn yr estyniad a gynigir gan yr UE?
 - Hyd yn oed os cytunir ar estyniad gyda'r UE, a all Llywodraeth y DU gael y rheoliadau i estyn y diwrnod ymadael drwy'r Senedd erbyn 29 Mawrth?

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir nad yw senario dim cytundeb yn dderbyniol ac na fyddai'n diogelu buddiannau Cymru.

9. Cyfeiriodd PB at ddogfen Llywodraeth y DU ar oblygiadau ymadael heb gytundeb ar gyfer masnach a busnes, a chytunodd y dylid anfon dolen i'r ddogfen hon at yr aelodau.

Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu dolen i ddogfen Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau ar gyfer masnach a busnes.

10. Er bod yn rhaid i ni wneud pob ymdrech i osgoi dim cytundeb, dywedodd PB fod pwyntiau risg yn parhau ac felly mae'n hanfodol ein bod i gyd yn bwrw ymlaen â pharatoadau i wneud popeth y gallwn i fod yn barod pe bai'r senario hwnnw'n digwydd.

11. Pwysleisiodd PB na allwn, fodd bynnag, baratoi Cymru ar ei phen ei hun ac mae'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn hanfodol, ac maent yn gwella'n araf, fel y gwelwyd wrth i Brif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fynychu cyfarfodydd penodol Pwyllgor Cabinet Llywodraeth y DU am y tro cyntaf yn hanes datganoli.

12. Disgrifiodd PB hefyd sut mae pedair rhan i'n gwaith yng Nghymru:

- Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar brosiectau ledled y DU
- Pasio deddfwriaeth yn y Cynulliad (a chydysynio i ddeddfwriaeth yn y Senedd) i gael llyfr statud gweithredol ar gyfer ymadael (rydym ar y trywydd)
- Argyfyngau sifil
- Gwaith ychwanegol sy'n benodol i Gymru (fel yr amlinellwyd mewn datganiadau i'r Cynulliad ar 22 Ionawr) a gefnogir gan Gronfa Pontio'r UE.

13. Yn ogystal, pwysleisiodd PB bwysigrwydd cyfathrebu clir, pwylllog, cydgysylltiedig, a soniodd am wefan Paratoi Cymru, a bod y mwyafrif o awdurdodau wedi helpu i godi ymwybyddiaeth amdani ymhlith y cyhoedd. Mae'r cyfathrebiadau cydgysylltiedig a baratoir gan weithwyr proffesiynol cyfathrebu yn hanfodol ar gyfer rhannu negeseuon mewn ffordd glir na fydd yn achosi gofid i bobl yn anfwriadol, ond mae cyfryngau cymdeithasol yn cynrychioli risg uwch o gam-gyfathrebu a allai fynd y tu hwnt i reolaeth. Mae'n bwysig bod pob partner gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o hyn ac yn effro iddo.

14. Soniodd PB am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn darparu asesiad teg a defnyddiol o baratodau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn amlygu maint yr her a phwysigrwydd craffu. Cynhaliwyd digwyddiadau craffu'r wythnos ddiwethaf ac fe'u cynhelir yr wythnos hon, yng Ngogledd a De Cymru yn y drefn honno. Roedd yr adborth o'r digwyddiad cyntaf yn gadarnhaol, ac roedd PB yn dymuno cofnodi diolchiadau i Swyddfa Archwilio Cymru.

Gweithredu – Anfon nodyn o ddiolch at Swyddfa Archwilio Cymru am y digwyddiadau craffu.

15. Gan edrych ymlaen ymhellach:

- Os cytunir ar gytundeb a bydd y DU mewn cyfnod pontio, bydd trafodaethau ar Berthynas yn y Dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi addo rhagor o gyfranogiad i'r gweinyddiaethau datganoledig, ond mae'r trafodaethau hyn yn debygol o fod yn ehangach ac o bosibl yn fwy cymhleth na'r rhai hyd yn hyn. Mae'r model economaidd o fasnachu nwyddau a gwasanaethau, mudo, a chymryd rhan mewn rhaglenni'r UE yn y dyfodol i gyd yn feysydd pwysig i'w trafod.
- Cyllid yr UE ac Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i gael cronfa ffyniant ar y cyd i gymryd lle cronfeydd strwythurol yr UE ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir ei gwrthwynebiad i unrhyw leihad yn lefelau

presennol cyllid yr UE sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, neu i gyflwyniad rheolaethau newydd, gan Lywodraeth y DU, drwy ddull o'r fath.

- Cyfansoddiad y DU – mae fframweithiau cyffredin sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, yr amgylchedd, yr economi a meysydd eraill yn cael eu datblygu, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gryfhau'r bensaernïaeth gyfansoddiadol gyffredinol sy'n cefnogi datganoli. Wrth i ni adael yr UE, ni fyddai dulliau cyffredin sy'n gymwys ar lefel yr UE yn gymwys bellach fel mater o drefn ac felly bydd angen i drefniadau rhynglywodraethol o fewn y DU gefnogi math gwahanol o ymgysylltu a ffordd o ddod i gytundeb.
- Polisi yn y dyfodol – mae gwaith ar y gweill yng Nghymru mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys, er enghraifft, ar oblygiadau Brexit ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil.

16. Dywedodd PB heddiw (18 Mawrth) fod adroddiad wedi'i gyhoeddi ar yr effaith y bydd cynigion polisi mudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn ei chael ar Gymru, a chytunodd i anfon dolen i'r adroddiad drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Gweithredu – yr ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu dolen i'r adroddiad ar fudo.

17. Dywedodd PB i gloi, yn ystod yr wythnos allweddol hon/ yn ystod yr hyn sy'n fis allweddol ac yn wir yn flwyddyn allweddol, fod ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hanfodol nag erioed.

18. Yn gyntaf, diolchwyd y Gweinidog Tai a Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Cyng. Debbie Wilcox (DW) am ddarparu cyllid i gwrdd â chostau ychwanegol pensiynau i athrawon, a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Ionawr.

19. Wedyn, diolchwyd PB gan DW am ei grynodedb rhagorol o'r sefyllfa bresennol o ran Brexit, ac roedd pawb yn cytuno ei bod yn hynod gymhleth a digynsail. Pwysleisiodd DW pa mor anodd yw hi i aelodau etholedig geisio esbonio'r sefyllfa i'w hetholwyr. Hefyd, tynnodd sylw at bwysigrwydd gweithio ar draws y Llywodraeth a gyda chydweithwyr a chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau parhad gwasanaethau i'r cyhoedd.

20. Nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) fod hwn yn amser anghyffredin dros ben ac mae'n rhaid i bawb ohonom fod wedi'n paratoi cymaint ag y bo modd.

21. Soniodd y Gweinidog am y rhaglen ddeddfwriaethol a'r effaith y mae Brexit yn ei chael drwy roi pwysau ar y gallu i ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth a fyddai'n newydd neu'n arloesol. Rhaid i'r ffocws fod ar sicrhau bod deddfwriaeth hanfodol yn ei lle i baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE.

22. Nododd y Gweinidog pa mor dda y mae cydweithwyr wedi gweithio gyda'i gilydd ar draws Llywodraeth Cymru ac yn allanol, ac effaith gadarnhaol y dull partneriaeth sy'n bodoli ledled Cymru.

Eitem 3 – Argyfyngau Sifil

23. Cyflwynodd Reg Kilpatrick (RK) y cynlluniau wrth gefn sy'n cael eu gosod yn eu lle i ymdrin â senario Brexit 'heb gytundeb'. Siaradodd am y trefniadau i helpu i ddisgrifio'r strwythurau gorchymyn a rheoli sydd yn eu lle yng Nghymru i gefnogi trefniadau ymateb Llywodraeth y DU.
24. Diolchodd RK ei gydweithwyr ledled y sector cyhoeddus am yr holl waith sydd wedi'i wneud i gael Cymru mewn cyflwr o barodrwydd mawr i gefnogi gweithrediadau Llywodraeth y DU. Roedd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) (ECC (W)) yn cynnull heddiw, 18 Mawrth, gan baratoi i fynd yn weithredol ar gyfer senario dim cytundeb ar 29 Mawrth. Bydd Cymru wedi'i pharatoi ac yn gweithredu ac yn gallu darparu pa bynnag gefnogaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth y DU.
25. Disgrifiodd RK y berthynas a'r cydweithio cadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru (LIC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a thynnodd sylw at bwysigrwydd rôl awdurdodau lleol o ran cydlynu ymateb Cymru i senario dim cytundeb. Bydd angen i adrannau polisi LIC weithio'n agos ag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol i nodi problemau posibl megis prinder bwyd, a bydd Gweinidogion perthnasol yn cael eu cynghori ar unrhyw faterion.
26. Bydd Fforymau Cydnerth Lleol yn darparu adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa a fydd yn cael eu crynhoi mewn adroddiad ar gyfer Cymru, a gaiff ei glirio gan Weiniogion a'i anfon at Lywodraeth y DU. Mae'r broses hon yn bwysig ar gyfer nodi materion wrth iddynt ymddangos. Bydd yr wythnos hon yn ymarferiad a bydd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn symud i wasanaeth 24 awr o'r wythnos nesaf ymlaen (25 Mawrth). Os bydd oedi o ran Brexit, bydd y ganolfan yn lleihau gweithgarwch ond ni fydd yn camu i lawr.
27. Gofynnodd Andrew Morgan i adroddiad dyddiol Cymru gael ei rannu ag awdurdodau lleol. Cadarnhaodd RK na ellid rhannu'r adroddiad penodol ond y bydd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn darparu adroddiad dyddiol i'r fforymau cydnerth lleol.
- Gweithredu:** Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) i ddarparu adroddiad cryno dyddiol i bob fforwm cydnerth lleol pan fydd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn hollol weithredol.
28. Holodd RK gydweithwyr llywodraeth leol am eu hymdeimlad o'u parodrwydd eu hunain. Roedd yr ymatebion yn cynnwys pryderon ynghylch cynaliadwyedd y dull gweithredu oherwydd ei fod yn cymryd amser ac ymdrech sylweddol, a chytunwyd y byddai'n anodd ei gynnal y tu hwnt i'r tymor canolig.
29. Roedd pryder sylweddol ymhlith yr aelodau fod paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb yn cymryd cymaint o adnoddau, fel bod hyn yn cynrychioli risg fawr pe bai sefyllfa argyfwng arall o unrhyw fath yn codi. Roedd pryder bod adnoddau'n

cael eu hystyng yn rhy bell i ymateb yn effeithiol. Gallai'r effaith niweidiol ar fusnes fel arfer achosi problemau hefyd yn y tymor hirach.

30. Diolchwyd RK gan y Gweinidog am yr eitem a diolchwyd yr holl aelodau am eu cyfraniadau. Nododd y Gweinidog sut y mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn cael eu hysbysu'n llawn am oblygiadau Brexit heb gytundeb, a hefyd sut y dylem osgoi mynd ati'n weithredol i achosi sefyllfaoedd o banig a phentyrru stoc. Dywedodd y Gweinidog fod dod o hyd i'r cydbwysedd hwn a'i gynnal yn anodd ond yn hanfodol.

Eitem 4 – Diogelwch Cymunedol

31. Cyflwynodd Alun Michael (AM) ei gyflwyniad '*Mae Popeth yn Gysylltiedig â Phopeth Arall – Diogelwch Cymunedol yng Nghymru a pham mae'n bwysig*'.
32. Siaradodd AM am bwysigrwydd cydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd er nad yw plismona wedi'i ddatganoli i Gymru, rydym yn gweithio mewn amgylchedd datganoledig. Gwneir penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol gan Brif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr, a hefyd gan awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, felly dônt o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru.
33. Cododd AM y mater o heddluoedd yn wahoddedigion statudol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond mae hefyd wedi awgrymu y dylid eu gwahodd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu i wneud cysylltiadau ar draws y ddau faes.
34. Disgrifiodd AM y sleid 'Tirwedd Bartneriaeth' a phwysigrwydd uno ag awdurdodau lleol unigol a byrddau iechyd, gan gynnwys yr heriau a wynebir lle mae enghreifftiau o weithio seilo.
35. Trafododd AM effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru a'r mentrau cymorth sydd yn eu lle, yn ogystal â'r gwaith atal â ffocws sydd ar waith. Pwysleisiodd AM effaith hirdymor Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gydag unigolion yr effeithir arnynt yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus drwy gydol eu hoes, a disgrifiodd sut mae'r ddealltwriaeth rydym yn ei datblygu ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn trawsnewid dulliau plismona. Crynhoir hyn yn y bartneriaeth newydd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a phob un o'r pedwar Comisiynydd a'r Prif Gwnstabiliaid, a'r adroddiad canlyniadol '*Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: Torri'r Cylch Troseddu o un Genhedlaeth i'r Llall – Troi Dealltwriaeth yn Weithredu*'.
36. Esboniodd AM y canfyddiadau nad yw 90% o alwadau i heddlu De Cymru yn ymwneud â throseddu neu anhrefn ond eu bod yn ymwneud â bregusrwydd ac iechyd meddwl. Bellach, mae nyrsys iechyd meddwl yn cefnogi swyddogion yr

heddlu ar ddyletswydd i allu rhoi cymorth priodol i bobl agored i niwed y dônt ar eu traws.

37. Pwysleisiodd AM y costau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â throeddu fel y'u dangoswyd yn ei gyflwyniad, a'r camau sy'n cael eu cymryd gan Heddlu De Cymru i geisio lleihau'r costau hyn.
38. Siaradodd AM yn gryno am y gwasanaeth galwadau 101 a sut y bu cynllun peilot rhwng gwasanaeth yr heddlu, awdurdodau lleol a CLILC yn aflwyddiannus, ond mae angen ystyried y mater o'r ffordd orau o ymdrin â'r galwadau hyn.
39. I gloi ei gyflwyniad, siaradodd AM am blismona yn y gymdogaeth ac am y gwasanaeth 'Pwynt Help' yn Abertawe a oedd wedi sicrhau arbedion sylweddol i Heddlu De Cymru, y GIG a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Pwynt Help wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau yn gysylltiedig ag alcohol/nosweithiau allan a gyflwynir yn ei chymhorthfa yn Abertawe, a gwelodd y gwasanaeth fel ymyriad cadarnhaol iawn ar gyfer y gymuned. Cadarnhaodd Maria Battle hefyd yr effaith gadarnhaol a gaiff y gwasanaeth ar drin pobl â phroblemau camddefnyddio alcohol.

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Sylwadau i Gloi

40. Ymddiheurodd y Gweinidog am golli cyfarfod diweddaraf y Gweithgor Llywodraeth Leol oherwydd salwch, a chadarnhaodd pa mor bwysig yw'r agenda iddi. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yn blaenoriaethu dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol, a gofynnodd i aelodau llywodraeth leol fod yn hyblyg â'u hymrwymadau hefyd er mwyn roi blaenoriaeth i'r cyfarfod nesaf yn eu dyddiaduron.
41. Soniodd y Gweinidog am un agwedd ar drafodaethau'r Gweithgor, a fu'n ymwneud â phartneriaethau rhanbarthol strategol a rhestr o gydweithrediadau a luniwyd gan CLILC. Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y ffordd y maent yn gweithredu'n ymarferol a ph'un ai y gellid alinio gwaith pob grŵp yn well yn y dyfodol. Nododd y Gweinidog fod digwyddiad ar y gweill i archwilio hyn ac y byddai'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ill dau yn siarad. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y bydd yn ymrwymo adnoddau Llywodraeth Cymru i weithio gyda CLILC i gynnal adolygiad o'r trefniadau presennol a gwneud argymhellion ar sut y gellid symleiddio'r dirwedd. Yn ogystal, nododd y Gweinidog bwysigrwydd cynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n bartneriaid, megis yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, a hefyd yr undebau llafur (sy'n cael eu cynrychioli ar y Gweithgor) yn yr adolygiad hwn.

Gweithredu: Dywedodd y Gweinidog y byddai cylch gorchwyl yr adolygiad o drefniadau partneriaeth strategol yn cael ei ddrafftio a'i gytuno, ac y byddai'r

adolygiad yn adrodd erbyn yr hydref i lywio'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

42. Cytunodd y Cyng. Debbie Wilcox (DW) fod yr adolygiad yn bwysig a chadarnhaodd y byddai CLILC yn gweithio gyda LIC i'w ddatblygu. Hefyd, manteisiodd DW ar y cyfle i ddiolch i'r Gweinidog bod Llywodraeth Cymru wedi cyllido'n llawn y costau pensiwn ychwanegol i athrawon a swyddogion tân, a thynnodd sylw at gymaint y cafodd hyn ei werthfawrogi. Diolchodd Tudor Davies y Gweinidog hefyd ar ran y tri Awdurdod Tân. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn benderfynol nad oedd yn rhaid i wasanaethau rheng flaen dalu'r costau ychwanegol.
43. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yn mynychu Cyngor CLILC a chyfarfod dilynol yn lle cyfarfod y Gweithgor ar 29 Mawrth (ar hyn o bryd, nid yw Derek Vaughan, ASE, ar gael i gadeirio'r Gweithgor oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amserlen Brexit).
44. Diolchwyd yr aelodau gan y Gweinidog am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf 10.30 – 12.30 ddydd Mercher 12 Mehefin yn Nhŷ Hywel.